

Oriel Môn, Llangefni

Datganiad Mynediad

“Bwriad y datganiad mynediad hwn yw rhoi gwybodaeth ychwanegol i ymwelwyr, gyda’r nod o ddisgrifio’r cyfleusterau a’r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ar gyfer ein holl ymwelwyr.”

Lleolir Oriel Môn yn Llangefni, Ynys Môn. Yr Oriel yw amgueddfa sirol ac oriel gelf Ynys Môn ac mae’n cael ei rhedeg gan wasanaeth Amgueddfeydd a Diwylliant Cyngor Sir Ynys Môn. Mae’n cynnig rhaglen weithgar o arddangosfeydd dros dro, gweithdai a digwyddiadau arbennig ac arddangosfeydd lled-barhaol yn ymwneud ag agweddau o orffennol cyfoethog Ynys Môn. Mae Siop yn gwerthu amrywiaeth eang o waith celf, crefftau, llyfrau a rhoddion, a Caffi Dewi, Caffi trwyddedig sy’n cynnig prydau wedi eu coginio gartref a byrbrydau.

Mae ystafell Tunncliffe yn ystafell aml-ddefnydd a ddefnyddir i bwrpasau addysgol ond mae modd i gyrrff allanol ei llogi ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau a sgysiau.

Gwybodaeth Ymarferol

Oriel Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TQ

Ffôn: 01248 724 444

E-bost: orielynysmon@ynysmon.gov.uk

www.orielmon.org

www.twitter.com/orielynysmon

www.facebook.com/orielynysmon

Mynediad am Ddim

Oriau Agor:

Fel arfer: Yn ddyddiol 10.00am - 5.00pm (heblaw am 25 a 26 Rhagfyr ac Ionawr 1af). Mae Oriell Môn ar agor ar Wyliau Banc, 10.00 - 5.00.

Yn ystod Covid; Dydd Mercher i ddydd Sul, 10:00am – 4:00pm.

Lle bo hynny'n bosib, gellir gwneud trefniadau ymlaen llaw i grwpiau neu ysgolion ymweld neu i logi Ystafell Tunncliffe tu allan i oriau agor arferol. Mae hyn wedi ei cyfyngu dros dro oherwydd Covid.

Caffi

Caffi Dewi, elusen lleol Hosbis Dewi Sant sy'n rhedeg y caffi. Mae Dewi Sant yn elusen leol sy'n darparu gofal hosbis i oedolion o siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Rydym yn rhoi gofal lliniarol arbenigol o safon uchel yn rhad ac am ddim i gleifion gydag afiechydon datblygedig, eu teuluoedd a gofawyr

I logi bwrdd, ffoniwch 01248 751516

Oriau Swyddfa

Oriau agor y swyddfa: Llun i Gwener, 9.00 am i 5.00 pm.

Teithio i'r Amgueddfa a'r Oriell

Cludiant Cyhoeddus

Mae'r safle bws agosaf ym Maes Parcio'r Amgueddfa. Mae bws rhif 32 o Langefni i Amlwch, drwy Lannerch-y-medd, yn stopio yn Oriell Môn. I weld yr amserlenni diweddaraf ewch i www.travelinewales.co.uk

a

<http://www.ynysmon.gov.uk/trafnidiaeth-a-ffyrdd/trafnidiaeth-gyhoeddus/bws-neu-gerbyd/amserlenni-bws-lleol/>

Mae'r gorsafoedd trên agosaf yng Nghaergybi a Bangor sydd, yn eu trefn, 12 a 10 milltir o Langefni.

Parcio i'r Anabl

Mae 6 o lefydd parcio dynodedig ar gyfer yr anabl ym maes parcio'r amgueddfa, gerllaw mynediad yr adeilad – tua 30m i ffwrdd.

Car

Mae gan yr Amgueddfa faes parcio dynodedig, di-dâl.

Beicio

Mae 4 stand beic yn y maes parcio ac mae Oriol Môn yn agos i lwybr beicio Lôn Cefni. Cliciwch yma i fynd i wefan Beicio Cymru.

Cyrraedd

Mae stepiau neu ramp gerdded gyda chanllaw yn arwain o'r maes parcio i'r brif fynedfa. Mae'r prif ddrws yn agor i'r brif dderbynfa, sydd wedi ei goleuo'n dda ac mae desg groesawu yn eich wynebu wrth i chi fynd i mewn, gyda'r siop ar yr ochr dde a'r caffi ar y chwith. Mae dolen sain barhaol wrth y ddesg groesawu. Cynlluniwyd y ddesg yn y dderbynfa i gwrdd ag anghenion gwahanol ddefnyddwyr ac mae mewn dau ran, un sy'n 110cm o uchder a'r llall yn 72cm o uchder.

Mynediad heb stepiau

Mae modd cael mynediad i holl ardaloedd cyhoeddus Oriol Môn heb ddringo stepiau. Mae rampiau graddedig mewn rhai ardaloedd.

Siop

Mae llawr y siop yn wastad. Nid oes modd cyrraedd rhai o'r silffoedd oddi ar eich eistedd, ond mae staff ar gael i helpu. Mae digon o le i symud pramiau a chadeiriau olwyn.

Cyfleusterau Toiled

Lleolir toiledau Merched a Dynion wrth ymyl y brif fynedfa ac mae cyfleusterau newid clytiau babi yn y naill a'r llall. Darperir peiriant sebon, sychwr dwylo, bin a bin glanweithdra. Mae gorchudd o deils ar y llawr.

Mae toiled y mae modd cael mynediad iddo gyda chadair olwyn, ar gyfer dynion a merched, wedi ei leoli gerllaw'r brif fynedfa. Mae'n cynnwys toiled, basn golchi dwylo, sychwr dwylo a bin. Mae canllaw byr wedi'i osod ar y wal a chortyn larwm. Gorchudd finyl sydd ar y llawr.

Lloriau

Mae'r amgueddfa a'r orielau celf i gyd ar un lefel ac nid oes unrhyw risiau na stepiau. Mae llawr pren wedi'i laminadu a charped drwy'r holl adeilad. Mae'r coridorau mynediad i'r amryw orielau ar lethr esmwyth a darperir canllaw. Mae'r holl goridorau a drysau yn yr adeilad yn ddigon llydan ar gyfer pramiau a chadeiriau olwyn.

Arddangosfeydd

Mae'r arddangosfeydd yn yr amgueddfa, prif oriel gelf, Oriol Kyffin a'r llefydd arddangos mewn coridorau yn cynnwys gwaith 2D a 3D ac mae'r holl waith wedi ei labelu â thestun mewn ffont maint 16. Caiff yr holl waith 2D ei hongian ar waliau ar uchder o 145cm i ganol y gwaith er mwyn ei wneud yn hygyrch i gynifer â phosib o ddefnyddwyr.

Mae arddangosfeydd yr amgueddfa yn gyfuniad o arteffactau mewn cypyrddau arddangos gwydr, arddangosfeydd agored a phanelau dehongli sy'n cynnwys testun a delweddau. Mae'r testun ar y panelau mewn ffont maint 16 neu fwy.

Mae modd trefnu a llogi teithiau ymlaen llaw i grwpiau ysgol a dysgu gydol oes ayb.ond mae hyn wedi ei cyfyngu yn ystod Covid.

Mae'r Den Darganfod yn cynnig ardal ymarferol ar gyfer teuluoedd yn cynnwys jig-sos, dillad gwisgo i fyny a gemau. Darperir seddi o wahanol uchder. Mae'r ardal hon wedi ei chau dros dro o achos Covid 19.

Golau

Mae ardal y dderbynfa wedi ei oleuo'n dda ac yn wastad. Fel arfer mae'r oriel a'r amgueddfa'n cael eu goleuo'n dda ac yn wastad, ond ar adegau mae'n rhaid gostwng lefelau golau yn yr ardaloedd hyn oherwydd gofynion cadwraeth arteffactau neu waith celf benodol.

Gwybodaeth Bellach

Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant sy'n cynnwys gofal cwsmer ac ymwybyddiaeth o anableddau.

Seddi

Mae stoliau sy'n plygu ar gael a gellir eu symud o gwmpas. Gofynnwch i aelod o staff am fwy o wybodaeth. Mae meinciau pren yn yr orielau celf.

Cadeiriau Olwyn

Mae gan Oriol Môn un gadair olwyn ac mae croeso i ymwelwyr ei benthg pan fyddant yn ymweld. Er mwyn llogi cadair olwyn ar gyfer eich ymweliad, cysylltwch â ni dros y ffôn neu ar e-bost.

Dolen Sain

Mae gennym ddolen sain y gellir ei defnyddio yn siop yr Oriol ac yn y dderbynfa.

Cŵn Tywys

Dim ond cŵn tywys, clywed a chymorth sy'n cael eu croesawu a'u caniatáu ym mhob rhan o Oriel Môn. Mae gennym bowlen ddŵr tu allan i'r brif fynedfa ar gyfer cŵn sychedig.

Tynnu Lluniau

Croesewir tynnu lluniau yn Oriel Môn, yn yr amgueddfa ac weithiau yn yr orielau celf, ond dim ond ar gyfer defnydd personol. Gofynnwch i aelod o staff os ydych yn ansicr. Weithiau ni chaniateir tynnu lluniau o arddangosfeydd neu waith celf oherwydd rheolau hawlfraint. Ni chaniateir defnyddio treipod na fflach o gwbl.

Wifi

Mae croeso i chi ddefnyddio'r cyswllt wifi digost yn yr adeilad.